

Digwyddiadau am ddim i'r teulu yn ystod gwyliau'r haf

01/08/2019



Mae gwyliau'r haf yn berffaith ar gyfer treulio amser gwerth chweil yn yr awyr agored gyda'ch anwyliaid. Ydych chi'n chwilio am ysbrydoliaeth ar gyfer beth i'w wneud? Mae'r naw syniad isod a ariennir gan y Loteri Genedlaethol yn chwa o awyr iach.

Gwyllo dolffiniaid yn y Picnic Mawr Bywyd Gwyllt

Fel un o'r llefydd gorau yn Ewrop i weld dolffiniaid trwynbwl, dylai Aberdeen fod eich cyrchfan nesaf ar gyfer hwyl y môr. Ar 17 Awst, mae Dolphinwatch yn cynnal picnic i deuluoedd dreulio amser gyda'i gilydd tra'n darganfod y bywyd gwyllt o'u cwmpas. Rhai o'r eitemau cyffrous ar yr agenda yw teithiau natur, sgramblo pwll creigiog a gwylio dolffiniaid.

Cymryd rhan mewn dathliadau

Ddwy flynedd ar ôl cynnal y prosiect adnewyddu mawr, mae gan y [Piece Hall](#) lawer o bethau i'w gwneud ar gyfer ymwelwyr. Un o'r uchafbwyntiau yw g?yl [Sunday Street Festival](#) sy'n cael ei chynnal ar 4 Awst, gyda phethau hwyliog i'r teulu cyfan gan gynnwys perfformiadau syrcas, gweithdai, theatr a cherddoriaeth.



Credyd: Kazimier Productions, Tom Woollard

Plymiwch i foroedd Cymru

Mae [Prosiect Moroedd Byw Cymru](#) yr Ymddiriedolaeth Natur yn ailgysylltu pobl â byd cefnfor cyfoethog na ellir ei weld yn hawdd. [Ymunwch â nhw](#) ar 7 Awst ar gyfer hwyl deuluol ar lan y môr, gan gynnwys trip rhith-wirionedd i'r cefnfor! Yn ôl ar dir sych, byddant yn chwilio'r traeth am greaduriaid ac yn rhannu straeon.



Credyd: North Wales Wildlife Trust

Gwrandewch ar gerddoriaeth fyw yn Hanley Park, Stoke-on-Trent

Bydd cyngherddau'n cael eu cynnal ar y bandstand ym [Mharc Hanley](#) bob dydd Sul tan ddiwedd Awst. Y Bandstand yw trysor o'r hyn sy'n un o'r parciau Fictoraidd mwyaf yn y DU, a ailagorwyd yn ddiweddar ar ôl [gwaith adfer](#) gwerth £4.5miliwn gan y Loteri Genedlaethol. I'r rhai sydd am fod yn fwy egniol, mae'r parc hefyd yn [cynnal sesiynau aml-chwaraeon a gweithgareddau](#) am ddim ar ddydd Iau i blant 5-12 oed.



Credyd: Stoke-on-Trent City Council

Cefnogi rhywogaethau sydd mewn perygl

Mae hwyl i'w gael ar hyd y ffordd i helpu i achub rhai o'r rhywogaethau mwyaf mewn perygl yn y wlad, gyda [Back from the Brink](#). Mae celf a chrefft, cwisiau a creu zine yn un o filoedd ar filoedd o'r [pethau hwylus i'w gwneud](#) ledled Lloegr yr haf yma.



Credyd: Sian Hughes

Hawlio strydoedd yn ôl yng Nghaerl?r

Bob Sul olaf o'r mis tan fis Hydref, mae strydoedd Caerl?r wedi'u cau ar gyfer ceir ac wedi'u hagor i bobl eu mwynhau. Defnyddia [Open Streets Greyfriars](#) lleoliadau hanesyddol nad yw ar gael yn aml ar gyfer gemau am ddim, arddangosfeydd, teithiau hanesyddol, gweithdai a llawer mwy. Mae'r themâu misol sydd i ddod yn cynnwys Caerl?r Fictoraidd, Brenin Richard III a Chaerl?r yn ystod y rhyfel.



Credyd: Andy Salkeld

Cyfri glöynnod byw'r genedl

Nid yw cymryd rhan yn yr [arolwg mwyaf o löynnod byw](#) yn y byd erioed wedi bod mor haws. Mae'r [big butterfly count](#) wedi creu ap defnyddiol ar gyfer ffôn clyfar y gallwch gofnodi faint o löynnod byw a gwyfynod a welwch mewn 15 munud. Mae peidio â gweld glöynnod byw yn wybodaeth ddefnyddiol hefyd! Gallwch helpu i fesur iechyd ein hamgylchedd yn unrhyw ledled y DU tan 11 Awst.



Parti yn y Parc

Mae amrywiaeth o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn y golygfeydd hardd o [Gerddi Castell Antrim](#), sy'n 400 mlwydd oed, yr haf yma. Ar 3 Awst, bydd yr wythfed [Parti yn y Parc](#) yn llawn gweithgareddau hwyliog fel golff gwallgof, paentio wynebau a thrampolinau. Ar 10 Awst, gwahoddir plant i fynd i chwilio am [fwystfilod bach](#) a darganfod byd pryfed gyda chymorth ceidwad parc. Fel arall, gallwch fwynhau [cerddoriaeth fyw](#) bob prynhawn Sul tan ddiwedd y tymor.



Anfarwoli eich hoff lefydd mewn cerddi

Rhannwch eich safbwyntiau ar amrywiaeth, treftadaeth neu bersonoliaeth lle yng Nghymru neu Loegr drwy ysgrifennu cerdd a'i phinio ar [fap](#) rhyngweithiol [Mannau o Farddoniaeth](#). Gallwch ymuno â bardd preswyl lleol mewn [digwyddiadau](#) sy'n amrywio o weithdai i raglenni a theithiau cerdded hanesyddol. Mae digwyddiadau ar y gweill yn cael eu cynnal mewn lleoliadau fel Mur Hadrian, Coedwig Sherwood a'r Peak District, fodd bynnag nid oes rhaid i chi fynd i un i gyfrannu at y map – dim ond ysgrifennu lle bynnag yr ydych!



Credyd: University of Newcastle